Cofnodion Cyfarfod 12 Mawrth 2013 a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yh.

YN BRESENNOL

Ken Brown
George Smith
Lena Ashley
Sian Gwenllïan
Louise Hughes
Daniel Williams
Pat Jones
Bethan Jones
Sarah Riley
Hywel V Jones
George Smith
Iestyn Harris

Hefyd yn bresennol Wynne Barton
Swyddog Ariannol

1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Mawrth y Cyngor. Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad byr ynglŷn â rhai materion y pentref. Y Feddygfa newydd yn dod yn eu blaen yn dda iawn. Swyddog Cefnogol yr Heddlu Ian Rooksby wedi gweld bod dau gar o eiddo un teulu i weld wedi eu gadael. Mae treth arnynt hyd nes diwedd mis Mawrth yna bydd yn cymryd camau i'w symud.

1.2 Gofynnodd y Cadeirydd os byddai Sian yn gallu dweud ychydig am beth sydd yn digwydd ynglŷn â ffordd osgoi Bontnewydd a Chaernarfon - dywedodd hithau bod y grŵp bellach am gyhoeddi posteri'r un maint a rheiny sydd wedi ei gyhoeddi ar gyfer gwrthod y peilonau. Mae'n amlwg nad yw'r pentrefwyr yn ymwybodol o oblygiadau'r ffordd i Felinheli ar hyn o bryd.

1.3 Cafodd y Cadeirydd gyfarfod a Matron Cerrig yr Afon ynglŷn â'u cyfraniad i Oleuadau Stryd ger y Safle Bws; dywedodd bod rhai i'r amcan bris fynd at y perchnogion am ystyriaeth. Gobeithir cael ymateb erbyn y cyfarfod nesaf.

1.4 Gan fod angen cynnal a chadw safle Moriah dywedodd y Cadeirydd ei fod am gyfarfod a Menter Fachwen i edrych beth fyddant yn gallu cynnig fel gwaith cynnal a thyfu planhigion ar y safle. Gobeithir cynnal cyfarfod yn fuan wythnos nesaf.

Ymddiheuriadau Nerys John.

2.0 DATGAN DIDDORDEB

2.1 Dim

3.0 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd Cofnodion 12 fed o Chwefror 2013.

Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir ac arwyddwyd y cofnodion.

4.0 MATERION YN CODI

4.1 Cyfarfod ynglŷn â llwybrau gyda Chyngor Cymuned Llanddeiniolen - cyflwynodd y clerc wybodaeth i'r cyngor bod Cyngor Llanddeiniolen yn barod i gyfarfod yn ystod y dydd. Roedd angen enwau ar gyfer y cyfarfod. Roedd Cynghorwyr Ken Borwn, Sian Gwenllïan, Pat Jones a George Smith yn barod i gyfarfod a hwy, roedd unrhyw fore dydd Gwener yn gyfleus.

4.2 Cyfarfod a Gareth Roberts Menter Fachwen ynglŷn â chynllunio a chyhoeddi taflen gerdded - Cyflwynodd y clerc wybodaeth i'r cyngor bod Gareth bellach wedi dechrau ei swydd ynglŷn â phrosiect cerdded a darganfod. Roedd angen cynghorwyr i'w gyfarfod i drafod y mater. Roedd y cynghorwyr canlynol yn barod i gyfarfod a Gareth, Cynghorydd Ken Brown, Cynghorydd Hywel V Jones a Chynghorydd George Smith. Byddai rhaid i'r cyfarfod yma fod gyda'r nos.

5.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

5.1 Roedd y pwyllgor heb gyfarfod hyd yma ond gobeithir gwneud hynny yn fuan er mwyn adrodd yn ôl ar y Cyngor Cymuned.

5.2 Mae angen trwsio drws y storfa fawr - efallai dim ond angen plaen sydd eisiau.

6.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.

6.1 Cadarnhawyd gwariant Mis Ionawr a derbyniwyd yr adroddiad ariannol. Roedd y gwariant yn cynnwys y cymorth ariannol i'r ceisiadau a derbyniwyd y mis cynt.

6.2 Ni chafwyd cais oddi wrth y Regata na'r Ysgol Feithrin.

7.0 GOHEBIAETH

7.1 Dim

8.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC

8.1 Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod mewn cysylltiad â CADW er mwyn cael enwau seiri maen a fyddai yn gallu ymdrin â'r Cloc.

9.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

9.1 C13/0183/20/LL Cais ar gyfer codi estyniad ar do'r eiddo ynghyd a gwneud newidiadau allanol amrywiol gan gynnwys gosod balcony - Tŷ Sul 3 Capel Bryn Menai, Brynffynnon, Y Felinheli LL56 4SX. - Dim gwrthwynebiad.

9.2 C12/1485/20/LL Cais ôl-weithredol ar gyfer creu mynedfa a llecynnau parcio newydd - Hilbre, Bush Road, Y Felinheli, LL56 4SX. - Dim gwrthwynebiad.

9.3 C13/0214.20/LL Cais I godi tŷ deulawr newydd a chreu mynedfa newydd ac ail-gyfeirio llwybr cyhoeddus - Fferm Tan y Maes Isa', Tan y Maes, Y Felinheli, LL56 4UQ - Dim gwrthwynebiad.

10.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT

10.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld â'r fynwent y bore hwnnw a bod dim i'w adrodd ond bod gwynt a glaw wedi chwythu ychydig o'r potiau.

10.2 Roedd Watkin Jones yn barod i roi pridd ar gyfer y fynwent ond byddai rhaid i'r cyngor ei gario yno eu hunain.

10.3 Gobeithir cael toriad cyntaf i'r fynwent cyn Sul y Blodau.

11.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH

11.1 Trafodwyd materion yr eitem hon o dan adroddiad y Cadeirydd.

12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU

12.1 Dywedodd Sian Gwenllïan bod Llwybr Cyhoeddus Rowen yn mynd i'w gael ei wirio ochr y feddygfa. Roedd hefyd yn ymwybodol bod perchnogion y tir yn barod i roi caniatâd i'r llwybr gael ei gofrestru. Cyflwynwyd gwybodaeth i'r Clerc er mwyn iddi symud ymlaen i ysgrifennu at y perchnogion.

12.2 Llwybr Afon Heilyn yn dal wedi ei gau.

Penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu â Gerallt Jones Cyngor Gwynedd i gael manylion diweddara ynglŷn â'r llwybr.

13.0 CYNGHORYDD SIR

13.1 Cyflwynodd y Cynghorydd Sir yr adroddiad amgaeedig yn atodiad A.

14.0 UNRHYW FATER ARALL

Dim

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 8:30 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....

ATODIAD A

Adroddiad Cynghorydd Gwanwyn 2013

1)Ffordd Caernarfon: mae un lon o'r ffordd yn parhau ar gau am fod y Cyngor yn poeni am gyflwr y ffordd. Mae ymchwiliadau yn parhau.
2)Tai ger yr Ysgol: Mae'r tai ar stad Ger Y Nant yn cael eu codi yn gyflym. Y rheolwr ar y safle yw Mark Williams(07787575979). Gallwch ei ffonio os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Mae llygredd yn yr afon yn cerrig yr Afon ac rwyf wedi tynnu sylw Asiantaeth yr Amgylchedd at hyn. Cysylltwch â Tai Eryri os ydych am roi eich enw ymlaen ar gyfer y tai rhent cymdeithasol
3)Canolfan Meddygol **Rowen**: mae'r gwaith yn mynd mlaen yn gyflym fan hyn hefyd a disgwylir y bydd ar agor diwedd Mehefin. Cefais ymweliad safle wythnos diwethaf. Rwyf yn trafod y posibilrwydd o gael gwella y llwybr lawr i Rowen.
4)**Ffordd Osgoi** Caernarfon/Bontnewydd: mae Carl Sargeant o Lywodraeth Cymru wedi gwrthod dod i ymweld a'r safle. Mae'n debygol y bydd Ymchwiliad Cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor ymgyrch yn dal i gyfarfod. Gallwch anfon eich sylwadau i : Carl.Sargeant@wales.gov.uk
5)Peilonau a cheblau trydan rhwng Pentir ac Ynys Môn: mae Hywel Williams, AS yn arwain y gwaith o wrthwynebu rhagor o beilonau.
6)**Traffig ochr Seilo**: mae'r Cyngor Sir wedi addo symud yr arwyddion 30 mph at gornel y cae pêl-droed ac yna gosod arwyddion 40 mph hyd gwaelod Nant y Garth. Mae hyn yn dal ar y gweill, er yn cymryd amser i'w weithredu.
7)**Lon Las Ffordd Caernarfon**: mae ychydig o oedi gyda hyn ond mae'r gwaith adeiladu fod i ddechrau cyn hir.
8)Wal beryglus Hen Gei Llechi/Pendorlan: mae Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir yn gweithio ar hyn. Yn anffodus mae Stepiau Cei ac un lon i Hen Gei Llechi yn dal ar gau.
9)**Partneriaeth Y Felinheli**: Mae'r bartneriaeth yn dal yn weithgar ond yn anffodus, ni fydd modd datblygu y tir ger cyn-Penningtons. Byddai yn ddrud iawn i ddatblygu'r tir yn ôl arolwg peirianyddol a wnaed fel rhan o waith ymchwil.
10)**Boreau Coffi.** Cafwyd sawl bore coffi llwyddiannus yn ddiweddar ac mae Felin Gylchu a Felin Sgwrsio yn brysur iawn. Codwyd £170 gan Glwb y Dysgwyr/Felin 70% ar gyfer Cronfa Llifogydd Llanberis a bu plant yr ysgol a chanolfan Brynffynnon yn codi arian i Masnach Deg. Diolch i bawb am eu gwaith.
11)**Fforwm Busnes Y Felinheli**: cynhelir cyfarfod i sefydlu hwn ar Ebrill 18 am 6 p.m. yn Yr Hen Lechan.
12)Ysgol Felinheli: bum yn ymweld a'r ysgol ac mae plant Blwyddyn 6 yn cynnal **ymgyrch clirio sbwriel** fel rhan o'u gwaith cymunedol.
13)Rwyf yn ceisio helpu trigolion Hen Gei Llechi i gael Dwr Cymru i wella y llwybr cyhoeddus ger y Gardd Fôn ac yn ceisio helpu trigolion Ffordd Heulyn gyda phroblemau gyda'r wal-fôr.
14)Treth Llofftydd a newidiadau i'r sustem les a budd-daliadau: bydd nifer o drigolion Felin yn cael eu heffeithio. Cysylltwch a mi os ydych am drafod unrhyw broblem sy'n codi yn sgil hyn.